

Ystyriaeth gynnar o'r effeithiau

Mae *Cysylltu Cymunedau* yn cyflawni ymrwymiad *Symud Cymru Ymlaen* i ddatblygu strategaeth i fynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol. Mae hwn yn ymgynghoriad sy'n ceisio cychwyn trafodaeth ar yr hyn sy'n gweithio mewn cymunedau ac yn gofyn beth arall y gellir ei wneud a chan bwy.

Mae *Cysylltu Cymunedau* wedi ei ymwreiddio yn fframwaith *Ffyniant i Bawb*. Mae llinellau agoriadol *Ffyniant i Bawb* yn dweud bod ffyniant yn golygu **bywyd o ansawdd da, a byw mewn cymunedau cryf a diogel** ac mae themâu'r ymgynghoriad hwn yn cysylltu'n agos â'r nodau o ffyniant, cydnerthedd, iechyd da, cydraddoldeb, cydlyniant cymunedol, diwylliant ac iaith. Cyfeirir trwy gydol yr ymgynghoriad at y cysylltiadau sydd gan leddfau unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol â chyflawni'r holl nodau hyn.

Rydym yn gwybod o'r cyfoeth o waith ymchwil, gwybodaeth a data sydd ar gael yr ydym wedi eu dadansoddi bod effeithiau economaidd a chymdeithasol unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol ar iechyd a llesiant unigolion a chymunedau yn sylweddol, a bod yr effeithiau hyn yn effeithio ar bobl o bob oed, sy'n byw ym mhob man ac o bob rhan o gymdeithas. Datgelodd yr Arolwg Cenedlaethol Cymru diweddar ar Unigrwydd bod tua un rhan o bump o'r boblogaeth yn teimlo'n unig, sy'n agos at hanner miliwn o bobl. Mae'r bobl hyn yn byw mewn **dinasoedd ac yng nghefn gwlad**, maent yn cynrychioli'r holl **nodweddion gwarchoddedig**, ceir tystiolaeth sy'n awgrymu cyfraddau uchel o unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol ymhliith **plant a phobl ifanc** a cheir tystiolaeth rhagamcanol sy'n dangos y bydd cynnydd o 50% i nifer y bobl dros 50 oed a fydd yn dioddef unigrwydd. Yn y pen draw, gall gwahanol ddigwyddiadau bywyd sbarduno'r profiad o unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol, ar unrhyw adeg yn y cyfnod oes. Gall unrhyw un gael ei effeithio. Dyma pam mai un o elfennau canolog ein syniadau a'r hyn yr ydym eisiau i bobl eraill ei ystyried yw sut yr ydym yn cynnal yr adeiladwaith cymdeithasol mewn ardaloedd lleol a chydnerthedd unigolion a chymunedau.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn darparu fframweithiau deddfwriaethol eglur y mae'r ymgynghoriad hwn wedi ei drefnu yn unol â nhw. Mae'r themâu sy'n ganolog i'r deddfau hyn, o **ymyrraeth gynnar ac atal a dylunio a darparu gwasanaethau integredig** wedi bod yn ganolog i'n syniadau yn y gwaith datblygol a sut y gallwn hwyluso camau gweithredu lleol o fewn y fframweithiau hyn. Yng nghyd-destun 'cyni cyllidol', rydym wedi bod yn ystyried **sut i wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau** o ran ein dulliau ariannu a'n cynlluniau grant presennol, i ystyried ffyrdd y gellir eu haddasu o ran unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol.

Mae angen llunio ymgynghoriad a strategaeth derfynol sy'n cydnabod yr ymatebion hynod amrywiol, **traws-lywodraethol a thraws-sector** i unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol. Felly, rydym wedi **cynnwys a chydweithredu ag isadrannau polisi** o bob rhan o Lywodraeth Cymru a chyda sefydliadau sy'n gweithio mewn cymunedau ac yn eu cynrychioli. Mae gan ein holl bartneriaid gynrychiolaeth dda ar y Bwrdd Datblygu Strategaeth Unigrwydd ac Arwahanrwydd Cymdeithasol ac rydym wedi cyfarfod ar wahân gyda nhw a llawer o unigolion a sefydliadau eraill.

Mae Cysylltu Cymunedau yn cysylltu'n agos ag ymrwymiad Ffyniant i Bawb i *'ehangu'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yn y gymuned drwy greu rolau newydd arloesol fel 'cysylltwyr cymunedol' sy'n cefnogi presgripsiynu cymdeithasol a phartneriaethau mwy ffurfiol gyda gwirfoddolwyr a'r trydydd sector.'* Rydym yn gweithio gyda chydweithwyr sy'n arwain yr ymateb iddo. Mae'r ymrwymiad hwn yn cydnabod gwerth gwaith sy'n cael ei wneud ar lefelau lleol a hyperleol mewn cymunedau ac mae tystiolaeth gynnar yn ein hysbysu bod y 'cysylltydd cymunedol' a modelau cysylltiedig yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl.

Mae Asesiad Effaith cwbl Integredig yn cael ei gynnal a bydd yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r strategaeth derfynol. Mae'r datganiad hwn yn cynnig fframwaith agoriadol ar gyfer yr Asesiad hwnnw.